

## Bywydeg a rheolaeth Hoelion Daear/Pryfed Weiren

### Cefndir

Larfau grŵp o chwilod yw Hoelion Daear, sy'n cael eu galw'n gyffredinol yn lchwilod clec. Ar ôl syrthio ar eu cefnau, byddant yn eu hunioni'u hunain drwy'u chwipio'u hunain i'r awyr gan greu sŵn clecian. Ceir tua 60 rhywogaeth o chwilod clec yn y DU, ond tair rhywogaeth *Agriotes (lineatus, obscurus a spuator)*, sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o ymosodiadau.

### Natur y Difrod

Bydd hoelion daear yn bwydo ar amrywiaeth eang o gnydau a bydd hyd a lled y difrod yn dibynnu ar y niferoedd sy'n bresennol, cyfnod y twf ac ymnerth y cnwd. Bydd hoelion daear yn difrodi eginblanhigion yn ystod y gwanwyn/yn gynnar yn yr haf gan ymosod ar eu coesyndau. Achosir mân glwyfau yn union o dan wyneb y pridd. Bydd y rhain yn troi'n ddu ac yn ddigon i beri i'r planhigion wywo a marw yn y pen draw. Gellir gweld difrod hoelion daear i gnydau gwreiddlysiau, yn enwedig tatws, o ddechrau'r hydref ymlaen. Mae difrod i datws yn arwain at golli ansawdd, a achosir gan dyllau crynion ar yr croen gan arwain at dwneli dyfnion i'r gloronen. Gall organebau eraill y pridd (gwllithod, miltroed, bacteria ayyb) ddefnyddio'r tyllau hyn yn y croen i achosi difrod pellach. Mae difrod i gnydau gwreiddlysiau eraill yn arwain at dolciau bach duon ond ni fydd hoelion daear yn tyrchu'n ddwfn i'r cnwd.



### Gelynydd Naturiol

Ydfrain yw'r prif rywogaeth adar sy'n bwydo ar hoelion daear, fodd bynnag, bydd pryfed y pridd a ffwngi hefyd yn ymosod arnynt

### Cylch Bywyd

Mae gan hoelion daear groen sgleiniog, efydd, gwydn a chaled, ac yn silindrig o ran siâp. Mae ganddynt dri phâr o goesau byrion a phen brown tywyll ar wahân. Yn ystod mis Mai/Mehefin, ar dir glas neu lawn chwyn, bydd chwilod beinw'n dodwy wyau'n unigol neu mewn clystyrau bychain yn union o dan wyneb y pridd. Bydd hoelion daear bach, gwynion, tryloyw (1.3mm) yn deor ar ôl tua mis. Byddant yn bwydo ar ddefnydd planhigion byw a marw yn y pridd. Gall nifer fawr o wyau a larfau ifainc ddarfod drwy ddysychedu os bydd cyflwr y pridd yn sych. Wrth i'r hoelion daear aeddfedu, byddant yn bwydo mwy ar ddefnydd planhigion byw islaw wyneb y pridd. Byddant yn bwydo am ddau, efallai tri chyfnod byr, a hynny ar ei ffyrnicaf rhwng mis Mawrth a mis Mai ac ym mis Medi i fis Hydref. Maent yn prifio'n araf iawn, gan gymryd pedair i bum mlynedd i aeddfedu, gan dyrchu'n ddyfnach i'r pridd cyn ymddangos fel oedolion lliw brown tywyll i ddu yn ystod mis Awst a mis Medi.

---

### Canolfan Organig Cymru · Nodyn Technegol Rhif 5 · Medi 2005

Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL. Ffon 01970 622248

Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.



### Mesurau Rheoli

- Dylai cylchdroi'r cnydau'n ofalus sicrhau na fydd cnydau lle y gellir cael ymosodiad yn cael eu tyfu ar ôl braenaru â gwair neu chwyn
- Mae cynhyrfu'r pridd yn barhaus drwy ddefnyddio peiriant palu ym mis Mawrth/Ebrill a chwynnu rhwng rhesi yn ystod yr haf, yn helpu datgelu'r larfau i gael eu dysychedu neu i fynd yn sglyfaeth i bryfed y pridd ac adar.
- Dylid archwilio tatws am ddifrod o ganol mis Awst ymlaen a dylid ystyried eu codi'n gynnar cyn i'r hoelion daear ddechrau bwydo yn hwyr yn yr haf
- Ar ddarnau bach o dir megis tai gwydr neu bolytwneli, gellir rheoli hoelion daear drwy ager-steryllu
- Dywedir bod cynhyrchion gweithredol mewn glwcosinoladau a gynhwysir mewn planhigion croesffurf o gael eu hydrolysu yn rheoli plâu'r pridd. Gall gwrteithiau gwyrdd, gan gynnwys mwstard, leihau gweithgarwch hoelion daear gan weithredu fel cyflyrydd i'r pridd

### Gwybodaeth bellach

#### Llyfrau ac erthyglau

- David Frost (2003) *Review of pest and weed control in organic systems*, Canolfan Organig Cymru
- Marion Gratwick, *Crop Pests in the UK – Collected edition of MAFF leaflets*, MAFF / ADAS Published by Chapman & Hall, London 1992

#### Gwefannau

- Bayer crop science *Expert Guides: Wireworms* (ddim yn organig un unig) <http://www.bayercropscience.co.uk/output.aspx?sec=273&con=592>
- Cyber-Help for Organic Farmers (UDA) , <http://www.certifiedorganic.bc.ca/rcbtoa/training/pestmanagement.htm>
- Database of IPM Resources (UDA) <http://ippc.orst.edu/DIR/index.htm>
- Henry Doubleday Research Association <http://www.hdra.org.uk>
- Organic Integrated Pest Management (UDA) [http://www.attra.org/attra-pub/summaries/organic\\_ipm.html](http://www.attra.org/attra-pub/summaries/organic_ipm.html)
- The *Pest Bulletin*, HDC. <http://www2.warwick.ac.uk/fac/sci/hri2/hdcpestbulletin/>

***Dylid nodi y gall gwefannau o'r UDA ddangos cylchau bywyd, amserau gwaith rheoli ac ati sydd ddim yn addas i Gymru***

---

### Canolfan Organig Cymru · Nodyn Technegol Rhif 5 · Medi 2005

*Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SY23 3AL. Ffon 01970 622248*

*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.*